**Tasg 2**

# Yr ochr arall

1. Mae'r testun hwn yn anorffenedig, fel mae'r … ar y diwedd yn dangos, ond beth yw ffurf y darn hwn?

| | | | |
|---|---|---|---|
| rhan o lythyr | ☐ | rhan o e-bost | ☐ |
| rhan o ddrama | ☐ | rhan o araith | ☐ |

Rhowch ddau reswm dros eich ateb.

| | |
|---|---|
| 1) | |
| 2) | |

2. Mae'r arddull yn

| | | | |
|---|---|---|---|
| ffurfiol | ☐ | uniongyrchol | ☐ |
| tafodieithol | ☐ | disgrifiadol | ☐ |

3. Beth yw **prif** bwrpas y darn?

| | |
|---|---|
| beirniadu pobl am fwyta gormod drwy'r flwyddyn | ☐ |
| canmol pobl am beidio â bwyta gormod dros y Nadolig | ☐ |
| tynnu sylw at broblemau Affrica | ☐ |
| tynnu sylw at broblem sy'n bodoli ym Mhrydain | ☐ |

4. Beth yw'r Trussell Trust? Ysgrifennwch dair ffaith amdanyn nhw.
[Mae rhai ffeithiau yn y darn ond bydd rhaid i chi chwilio am wybodaeth ar y we hefyd.]

| | |
|---|---|
| 1) | |
| 2) | |
| 3) | |

5. Yn ôl y map, pa ran o Brydain oedd angen y cymorth mwyaf o ran pecynnau bwyd yn ystod y cyfnod Ebrill – Medi 2017. Nodwch yr ardal a nifer y pecynnau bwyd.

6. Yn ôl y map, pa ran o Brydain oedd angen y cymorth lleiaf o ran pecynnau bwyd yn ystod y cyfnod Ebrill – Medi 2017. Nodwch yr ardal a nifer y pecynnau bwyd.

7. Sut mae'r ffigur am Gymru yn cymharu â rhannau eraill o Brydain?

8. Ticiwch y gosodiad cywir.

| | |
|---|---|
| Cafodd cyfanswm o 208 956 o becynnau argyfwng eu dosbarthu yn ystod haf 2017. | ☐ |
| Cafodd cyfanswm o 586 907 o becynnau argyfwng eu dosbarthu yn ystod hydref 2017. | ☐ |
| Cafodd cyfanswm o 586 907 o becynnau argyfwng eu dosbarthu yn ystod gwanwyn 2017. | ☐ |
| Cafodd cyfanswm o 519 342 o becynnau argyfwng eu dosbarthu yn ystod haf 2016. | ☐ |

9. Beth yw agwedd yr awdur at y sefyllfa fwyd yng Nghymru adeg y Nadolig?
   Rhowch ddigon o resymau a dyfynnwch ddarnau o'r testun i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud.

10. Beth yw'ch barn chi am y gorfwyta a'r prinder bwyd dros y Nadolig?
    Rhowch resymau da dros eich ateb.